Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfeydd Bwrdeistrefol**
**Y Ganolfan Ddinesig**
**Glyn Ebwy**
**Gwent**
**NP23 6XB**

**Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Blaenau Gwent yn cynnwys tri chwm gwahanol i'r gogledd o Gasnewydd yn ne ddwyrain Cymru. Fe'i nodweddir gan gysylltiad agos rhwng cymunedau trefoledig dwys ac ardaloedd mawr o gefn gwlad agored. Yn hanesyddol, roedd diwydiannau trwm cynhyrchu dur a chloddio glo yn amlwg yn yr ardal. Fodd bynnag, yn sgil diflaniad y diwydiannau hyn, mae cyfraddau uchel o ddiweithdra a llawer o amddifadedd cymdeithasol wedi bod yn yr ardal. Lefel bresennol y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 29.6%, a 18.9% yw cyfartaledd Cymru. Hon yw'r lefel uchaf o hawl i brydau ysgol am ddim yng Nghymru.

Mae 16 o wardiau cyngor ym Mlaenau Gwent yn cael eu cynrychioli gan 42 o gynghorwyr etholedig. Annibynnol yw'r grŵp sy'n rheoli. Mae pob ward ac eithrio pedair ymhlith y 100 o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a dynodwyd bod y fwrdeistref sirol yn Ardal Amcan Un y rhoddir blaenoriaeth i'w hadfywio.

Blaenau Gwent yw'r trydydd awdurdod unedol lleiaf yng Nghymru, ac mae ganddi boblogaeth ostyngol, sef 68,630 ar hyn o bryd. Mae llai nag 1% o'r boblogaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol a 9.5% yn medru'r Gymraeg.

**Cyllid**

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru i Fwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer 2010-2011 oedd £1,853 i bob pen o'r boblogaeth. Hon oedd y lefel uchaf o AGS i bob pen yng Nghymru. Gosododd y cyngor ei gyllideb refeniw cyffredinol ar 103.9% o'r AGS, gan arwain at lefelau Treth y Cyngor sy'n parhau'n uchel.

Yn 2010-2011, gosododd y cyngor ei gyllideb addysg uwchlaw lefel y gydran addysg dybiannol o fewn yr AGS. Cynhyrchodd hyn gyllideb addysg o £5,487 fesul disgybl heb grantiau, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £4,816 fesul disgybl a'r uchaf o blith awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dengys ffigurau Llywodraeth Cymru fod yr awdurdod yn dirprwyo 76% o'r gyllideb addysg sydd ar gael i ysgolion, sydd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 75%. Mae'n cynhyrchu cyllidebau dirprwyedig cyfartalog o £4,204 fesul disgybl mewn ysgolion cynradd a £4,617 fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd, yn cynnwys grantiau. Mae'r ffigurau hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £3,698 fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd a £4,194 fesul disgybl ar gyfer ysgolion uwchradd.

O ychwanegu hwn at y cyllid a reolir yn ganolog, cyfanswm cost addysg ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent yw £4,740 fesul disgybl ysgol gynradd, o'i gymharu â chyfartaledd ledled Cymru o £4,415. Cost addysg ysgol uwchradd yw £5,371 fesul disgybl, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £4,726.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Anfoddhaol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd da ac mae safonau ymhell islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig;
- bod y cymorth ar gyfer gwella ysgolion ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn anfoddhaol; a
- bod yr awdurdod yn darparu gwerth gwael am arian o ganlyniad i fethiant systemig rheolwyr.

**Gallu i wella: Anfoddhaol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod uwch swyddogion ac aelodau etholedig o weinyddiaethau olynol wedi darparu arweinyddiaeth anfoddhaol nad yw wedi herio tanberfformio a deilliannau gwael ar gyfer dysgwyr yn effeithiol;
- nid yw rheolwyr yn defnyddio data yn effeithiol i arfarnu effaith mentrau neu lywio targedu adnoddau i ddysgwyr sydd â'r angen mwyaf; a
- bod gan arweinwyr a rheolwyr hanes o roi ymatebion araf ac anghyflawn i argymhellion o adroddiadau arolygu olynol Estyn.

## Argymhellion

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen, dylai'r awdurdod lleol:

A1 roi strategaethau gwella a chamau penodol ar waith i godi lefelau medrau a sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol yn y gwasanaeth cymorth ieuenctid;

A2 datblygu strategaeth wedi'i chyfleu'n glir i herio ysgolion yn fwy trylwyr a rhoi cymorth wedi'i flaenoriaethu i ysgolion yn unol ag angen;

A3 gwella'r defnydd o wybodaeth am ddata a rheoli i:
- nodi a herio tanberfformio mewn ysgolion; ac
- arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth o fewn y gwasanaeth addysg ac ar draws partneriaethau sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc;

A4 codi cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol;

A5 gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliannau cynaliadwy yng nghanran y dysgwyr ôl-16 mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn;

A6 gwella swyddogaeth trefniadau craffu mewn perthynas â dwyn Gweithrediaeth y Cyngor i gyfrif am berfformiad gwasanaethau'r awdurdod lleol a dwyn penaethiaid i gyfrif am berfformiad ysgolion unigol;

A7 gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy:
- sefydlu meini prawf clir ar gyfer neilltuo cymorth; a
- gwneud defnydd cadarn o ddata perfformiad i lywio a chynllunio darpariaeth yn strategol; a

A8 gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i sicrhau atebolrwydd priodol gan bob partner.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd awdurdod lleol Blaenau Gwent yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gweithgarwch dilynol bod angen mesurau arbennig arno, a bydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr argymhelliad hwn.

Yn ystod pob arolygiad craidd, mae'r tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1. Astudiaeth achos arfer dda
2. Monitro gan yr arolygydd cyswllt

3. Ymweliad monitro gan Estyn
4. Gwelliant sylweddol
5. Mesurau arbennig

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio i ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall o fewn awdurdod.  Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu bwydo i Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio’n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Anfoddhaol

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae perfformiad ym mhob cyfnod allweddol wedi bod ymhlith yr isaf yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf. Dim ond yng nghyfnod allweddol 1 y mae perfformiad yn gyffredinol wedi cynyddu ar gyfradd gyflymach na chyfradd Cymru, er bod hyn o sylfaen isel iawn.

Cyfran y disgyblion ym Mlaenau Gwent sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw'r uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, hyd yn oed pan ystyrir y lefel uchel o brydau ysgol am ddim, mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd. Pan gaiff perfformiad ysgolion Blaenau Gwent ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail y ganran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn ysgolion cynradd ymhell islaw'r cyfartaledd, ac mae gormod o ysgolion yn y 25% isaf ac mae llawer mwy na hanner ohonynt islaw'r canol. Un ysgol uwchradd yn unig sydd yn y chwarter uchaf. Mae pob un o'r ysgolion eraill islaw'r cyfartaledd, a'r mwyafrif yn y chwarter isaf.

Yn 2010, ni wnaeth Blaenau Gwent fodloni unrhyw un o dri meincnod disgwyliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad mewn ysgolion uwchradd. Mae wedi perfformio cystal â'r meincnod disgwyliedig ar un dangosydd yn unig o 12 dangosydd posibl yn y pedair blynedd diwethaf.

Mae cynnydd disgyblion rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, er bod y cynnydd mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 3 ac ar y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yng nghyfnod allweddol 4 (yn cynnwys yr holl gymwysterau wedi'u cymeradwyo'n allanol yn 16 oed) islaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a wnaed o sylfaen isel ac mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig eto. Mae cyrhaeddiad mewn darllen yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 yn wael.

Mae canran y dysgwyr ym Mlaenau Gwent sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn parhau i fod y gwaethaf yng Nghymru. Bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg amser llawn yn 16 oed ac yng nghanran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn yn 2009. Fodd bynnag, ni pharhaodd y gwelliant hwn yn 2010 ac mae'r ffigurau hyn hefyd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.

Ym mhob cyfnod allweddol, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn fwy na'r cyfartaledd ledled Cymru. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, mae'r bwlch yn fawr iawn. Y rheswm am hyn yw'r ffaith fod perfformiad bechgyn ymhell islaw perfformiad bechgyn yn genedlaethol; nid yw hyn mor wir ar gyfer merched, o gymharu eu perfformiad â merched ledled Cymru.

Niferoedd cymharol fach o ddisgyblion o grwpiau sy'n agored i niwed sydd ym Mlaenau Gwent. Mae'r disgyblion hyn yn tueddu i berfformio'n anghyson ac mae eu

deilliannau yn well yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 nag yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 4.

Mae cyrhaeddiad mewn Cymraeg ail iaith yn gwella, gyda nifer gynyddol o ddysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Yn 2009, 12% yn unig o'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig â gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol gafodd ganlyniad achrededig. Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 16%.

**Lles: Digonol**

Er 2007, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ym Mlaenau Gwent wedi gwaethygu'n araf ac mae'n parhau i fod ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Mae hefyd ychydig yn waeth na'i feincnod prydau ysgol am ddim. Mewn ysgolion uwchradd, mae lefelau presenoldeb islaw cyfartaledd Cymru o 0.5 pwynt canran ac ychydig yn well na meincnod prydau ysgol am ddim yr awdurdod. Nid yw presenoldeb yn gwella ar y gyfradd a gyflawnir ledled gweddill Cymru. Mae'r bwlch rhwng presenoldeb ym Mlaenau Gwent a chyfartaledd Cymru wedi cynyddu'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae cyfraddau gwaharddiadau am bum niwrnod neu lai yn gwella ond ar gyfradd arafach na'r gyfradd ledled Cymru ac maent yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau gwaharddiadau am chwe diwrnod neu fwy yn well na chyfartaledd Cymru, ac maent yn gwella ar gyfradd gyflymach. Mae nifer y diwrnodau a gollir o'r ysgol yn sgil pob gwaharddiad cyfnod penodol ychydig bach slaw cyfartaledd Cymru.

Yn 2009, mae nifer y bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid (yn cynnwys gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol) yn dda iawn, sef 41% o'r boblogaeth (11-25 oed).

Mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â rhaglenni sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw (yn cynnwys ymarfer corff a'r celfyddydau perfformiadol) a gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae adroddiadau monitro ac arfarnu gwasanaethau yn dangos bod niferoedd y cyfranogwyr yn cynyddu.

Mae nifer y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn gostwng, gyda mwy o bobl ifanc yn llwyddo i osgoi troseddu neu aildroseddu. Fodd bynnag, mae gormod o bobl ifanc sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r Tîm Troseddau Ieuenctid nad ydynt yn parhau mewn addysg a hyfforddiant ar ôl iddynt adael yr ysgol yn 16 oed.

Cymerodd pobl ifanc ran mewn datblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac fe gafodd eu safbwyntiau ddylanwad cryf ar osod ei flaenoriaethau. Maent yn cyfrannu'n dda at gynllunio gwasanaethau a datblygu polisïau. Maent yn codi ymwybyddiaeth am faterion pobl ifanc ymhlith aelodau etholedig a swyddogion allweddol trwy gymryd rhan mewn cynghorau ysgol, y fforwm ieuenctid a Chyngor Mawr y Plant.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Anfoddhaol

### Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Anfoddhaol

Mae'r awdurdod yn darparu cymorth a her i ysgolion yn unol â meini prawf a nodwyd yn glir yn y cytundeb partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'i ysgolion. Fodd bynnag, mae ansawdd y cymorth a'r her yn well ar lefel uwchradd nag ar lefel gynradd. Mewn ysgolion cynradd, ni roddir her gadarn yn gyson i ysgogi gwelliannau mewn safonau. Caiff ansawdd gwaith ymgynghorwyr cyswllt ei fonitro gan bennaeth y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon trylwyr, ac mae diffyg manylder mewn llawer o nodiadau am ymweliadau, ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Mae'r awdurdod yn darparu ystod o ddata ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir o ganlyniad i ddehongli'r data hwn bob amser yn ddigon heriol.

Nid yw'r awdurdod yn adnabod pob un o'i ysgolion yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw wedi bod yn ddigon effeithiol yn nodi a chefnogi dwy ysgol gynradd ac uned cyfeirio disgyblion a roddwyd yn ddiweddarach mewn categori pryder mewn arolygiad gan Estyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn nifer sylweddol mewn awdurdod o'i faint. Nid oedd yr awdurdod yn ymwybodol o'r materion a arweiniodd at roi un o'r ysgolion yn y categori mesurau arbennig, a dim ond yn ddiweddar y tynnwyd yr ysgol o'r categori hwn.

Mae gan yr awdurdod lawer o fentrau wedi'u hanelu at godi safonau mewn llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw gwelliannau wedi cael effaith sylweddol ar safonau darllen isel iawn yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 eto. Mae llai o fentrau ar gyfer rhifedd a TGCh ac mae'n rhy gynnar i farnu eu heffaith ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Ceir cymorth da ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Mae'r awdurdod yn darparu ystod eang o ddewis a chyfle i ddysgwyr rhwng 14 ac 19 oed.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod briodol o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer rheolwyr canol mewn ysgolion cynradd. Mae dros hanner yr ysgolion uwchradd yn ymgymryd â hyfforddiant cyfwerth.

Ychydig iawn o swyddi gwag i lywodraethwyr sydd ym Mlaenau Gwent. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi llywodraethwyr. Mae angen parhau i wella hyder llywodraethwyr mewn dwyn penaethiaid i gyfrif yn fwy effeithiol am ddeilliannau gwael dysgwyr yn eu hysgolion. Yn y gorffennol, ychydig iawn sydd wedi manteisio ar hyfforddiant, ond eir i'r afael â hyn trwy roi hyfforddiant uniongyrchol a phwrpasol i gyrff llywodraethol cyfan.

### Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Anfoddhaol

Mae'r awdurdod yn bodloni'r holl ofynion statudol ynglŷn â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Bu cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'r ganran ym Mlaenau Gwentm, sef 3.7%, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 3.1%. Mae nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau neu unedau arbennig gryn dipyn yn uwch, sef 35% o'r rhai â

datganiadau, na chyfartaledd Cymru, sef 20%.

Nid oes gan ganran fechan o rieni a gofalwyr hyder yng ngallu'r awdurdod lleol i fodloni anghenion dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr apeliadau i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru rhwng Ebrill a Medi 2010. O ganlyniad, cyflwynodd yr awdurdod newidiadau priodol i'r broses adolygu flynyddol a datblygodd weithdrefnau pontio gwell i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith y datblygiadau hyn.

Mae ystod y cymorth a'r hyfforddiant ar gyfer rhieni wedi gwella. Mae systemau priodol ar waith i fesur amgyffrediad rhieni o wasanaethau, trwy'r broses adolygu flynyddol a'r arolygon blynyddol o amgyffrediad rhieni o'r gwasanaeth seicoleg addysg.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y maes gwasanaeth hwn, ac maent wedi nodi meysydd addas i'w gwella. Aethpwyd ati'n briodol i ailstrwythuro rolau a chyfrifoldebau uwch swyddogion o fewn y gwasanaeth yn ddiweddar. Maent wedi nodi blaenoriaethau strategol, gan gynnwys yr angen i wella deilliannau i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn gwelliant wedi bod yn araf ers yr arolygiad diwethaf.

Nid oes gan yr awdurdod feini prawf ar gyfer dod â datganiadau presennol i ben. Mae prosesau clir ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol. Fodd bynnag, nid yw meini prawf ar gyfer dyrannu cymorth a thynnu cymorth yn ôl ar gyfer grwpiau eraill o ddysgwyr wedi'u diffinio cystal. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod lleol yn gwybod a yw pob dysgwr mewn sefyllfa briodol neu a ydynt yn cael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd da.

Rhoddir cymorth da i rai grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol ac anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r gwasanaeth seicoleg addysg a'r cymorth allymestyn a ddarperir gan yr ysgol arbennig yn helpu staff yr ysgol i roi cymorth gwell i ddysgwyr.

Nid yw'r awdurdod yn defnyddio data perfformiad trylwyr yn ddigon da i lywio a chynllunio'r ddarpariaeth yn strategol. Heb wybodaeth felly, ni allant herio ysgolion yn effeithiol ac yn gyson ar y deilliannau ar gyfer pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol**

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn parhau i wella'r ffordd y mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi teuluoedd trwy fentrau fel ei brosiect peilot 'Tîm o Amgylch y Clwstwr', a'i Grwpiau Ardal Iechyd a Lles. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y datblygiadau hyn ar gynhwysiant a lles pobl ifanc.

Ceir dogfennau polisi ac arweiniad awdurdod lleol ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion, sy'n amlinellu'n glir y cyfrifoldebau priodol ar gyfer yr awdurdod lleol, ei swyddogion, ei ysgolion a'i lywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael

digon o effaith ar wella lefelau presenoldeb dysgwyr eto.

Mae swyddogion yn gweithio’n dda gydag ysgolion i helpu iddynt reoli ymddygiad disgyblion anodd. Mae’r awdurdod lleol a’i ysgolion yn lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol hwy yn llwyddiannus, ac maent wedi osgoi gwaharddiadau parhaol ym mhob achos heblaw’r rhai anoddaf.

Mae’r awdurdod lleol yn cynnal dadansoddiad manwl o berfformiad disgyblion y nodwyd eu bod yn rhan o grwpiau sy’n agored i niwed. Eto, nid yw’r awdurdod yn defnyddio’r data hwn yn llawn i arfarnu’r ddarpariaeth a llywio cynllunio yn y dyfodol.

Er bod strwythurau cymorth amlasiantaethol ar waith i helpu plant y gofelir amdanynt, nid yw cyrhaeddiad addysgol y bobl ifanc hyn yn ddigon da.

At ei gilydd, ychydig o ddefnydd a wneir o’r dystiolaeth o ddeilliannau at ddibenion arfarnu a chynllunio ar draws gwasanaethau’r awdurdod lleol, er mwyn targedu gwaith yn effeithiol. Yn bennaf, y mesur arfarnu yw math a nifer y prosiectau sydd ar gael. Mae’r mesur hwn i raddau yn dangos amrediad gwasanaeth da, ac amrywiaeth o gyfleoedd i fodloni anghenion pobl. Fodd bynnag, prin yw’r mesurau sy’n cefnogi unrhyw farnau cadarn am y gwahaniaeth y mae’r gwasanaethau hyn yn ei wneud i les dysgwyr ym Mlaenau Gwent.

Caiff pobl ifanc gyfle da i fanteisio ar ystod o wasanaethau cymorth, arweiniad a chwnsela proffesiynol, a chyfle da i fanteisio ar weithgareddau chwaraeon a hamdden targedig. Mae rheolwyr gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn gwella eu defnydd o’r system gwybodaeth reoli i dargedu gwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, mae ganddo rywfaint o ffordd i fynd o hyd cyn defnyddio data yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae gan yr awdurdod bolisi a gweithdrefnau diogelu clir. Mae systemau effeithiol i sicrhau bod pob un o’r staff addysg yn cael gwiriad gan y SCT a’u bod yn cael hyfforddiant diogelu priodol.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae’r awdurdod yn gweithio’n dda i gynllunio i leihau nifer y lleoedd dros ben, rheoli’r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion yn y sectorau uwchradd a chweched dosbarth a gwella adeiladau ysgolion.

Mae’r awdurdod wedi dechrau ei raglen ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae wedi cau un ysgol uwchradd ac wedi symud disgyblion yn llwyddiannus i Ysgol Gyfun Abertyleri. Mae wedi gwella’r cyfleusterau yn yr ysgol honno hefyd.

Mae wrthi’n cau dwy ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd arall yn ardal Glyn Ebwy ar hyn o bryd. Bydd disgyblion yn symud i ysgol 3-16 newydd yng Nglyn Ebwy ym Medi 2012. Bydd y ddarpariaeth newydd yn cynnwys canolfan integredig i blant, canolfan chwaraeon a safle newydd ar gyfer ysgol arbennig yr awdurdod. Yn ychwanegol, bydd yr awdurdod yn trosglwyddo’r holl ddarpariaeth chweched dosbarth yn y fwrdeistref sirol i gyfleuster ôl-16 newydd ar yr un safle, a fydd yn cael ei reoli gan Goleg Gwent.

Mae gan yr awdurdod gynlluniau da ar waith ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd. Mae wedi cau un ysgol gynradd ers yr arolygiad diwethaf ac wedi adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. Hefyd, mae'r awdurdod wedi ffederaleiddio dwy ysgol gynradd o dan un corff llywodraethol.

Dengys data cenedlaethol ar gyfer y tair blynedd rhwng 2008 a 2010 fod sefyllfa'r awdurdod o ran lleoedd dros ben yn gwella rhywfaint ar lefel gynradd, ond ei bod yn gwaethygu ar lefel uwchradd. O ganlyniad i ad-drefnu ysgolion, mae'r awdurdod yn rhagweld y dylai leihau nifer y lleoedd dros ben yn sylweddol. Serch hynny, mae gormod o leoedd dros ben yn parhau i fod yn her i'r awdurdod.

Mae gan yr awdurdod brosesau priodol ar waith i flaenoriaethu gwaith atgyweirio a chynnal mawr a chreu adnoddau cyfalaf ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw wedi argyhoeddi ysgolion ei fod yn ymgynghori â nhw yn ddigon da yn y broses flaenoriaethu.

Mae'r awdurdod yn cynllunio'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chwarae.

Trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI), mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n foddhaol gydag ystod o bartneriaid i sicrhau ystod briodol o wasanaethau cymorth ieuenctid. Gall pobl ifanc fanteisio ar amrywiaeth eang o'r gwasanaethau hyn i fodloni ystod o anghenion, yn cynnwys addysg a medrau, cyngor ac arweiniad a darpariaeth hamdden a chymdeithasol.

Mae swyddogion yn gwneud cysylltiadau da â strategaeth Blaenau Gwent ar gyfer medrau ac adfywio economaidd ac maent wedi dechrau helpu rhieni i gael hyfforddiant medrau a dechrau busnesau newydd.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Anfoddhaol**

### Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Fe wnaeth gweinyddiaethau blaenorol ym Mlaenau Gwent osgoi gwneud y penderfyniadau anodd sydd eu hangen i fynd i'r afael â diffygion sylweddol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae'r weinyddiaeth hon wedi dechrau gosod y sylfeini ar gyfer gwella safonau a darpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n rhy gynnar i'r gwaith hwn fod wedi gwneud unrhyw newid arwyddocaol i'r deilliannau gwael iawn ar gyfer dysgwyr yn yr awdurdod.

Mae cyswllt clir rhwng y strategaeth gymunedol, cynlluniau a pholisïau partneriaeth a gwasanaeth. Mae'r flaenoriaeth ar gyfer gwella safonau isel iawn mewn addysg yn glir. Dywed swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig eu bod yn awr yn benderfynol i roi diwedd ar y tanberfformio. Un enghraifft o'r newid hwn yw'r newid yn rôl y Cyfarwyddwr Addysg yn ddiweddar, a fydd yn awr ochr yn ochr â'r cyfarwyddwyr corfforaethol eraill yn y tîm rheolwyr corfforaethol.

Hyd yn oed yn awr, fodd bynnag, nid yw pob aelod etholedig ac arweinydd ysgol yn cefnogi'r strategaethau a ddewiswyd gan y Cyngor a'i swyddogion i ysgogi

gwelliannau cynaliadwy. Mae rhai ohonynt wedi bod yn araf i ymgysylltu yn y broses drawsnewid ac mae rhai ohonynt wedi bod yn weithgar yn trefnu gwrthwynebiad lleol i gynigion gwella. Nid yw'n glir bod holl benaethiaid uwchradd yr awdurdod yn ymgysylltu'n llawn â, ac yn gefnogol o, gynlluniau uchelgeisiol i fynd i'r afael â thanberfformiad annerbyniol.

Mae hanes o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth y gwasanaethau addysg. Nid yw dysgwyr wedi cael eu gwasanaethu'n dda yn sgil y newid cyflym yn yr uwch staff a newid blaenoriaethau a strategaethau. Nid oes unrhyw hanes o welliant cyson a chynaliadwy i wasanaethau.

Mae craffu ar berfformiad mewn addysg gan aelodau etholedig wedi cael ei arwain ar gyfeiliorn yn rhy aml gan sgorio pwyntiau gwleidyddol. Mae hyn wedi golygu nad yw swyddogion a phenaethiaid sydd wedi methu mynd i'r afael â safonau gwael wedi cael eu dwyn i gyfrif yn briodol.

Yn yr un modd, nid yw llywodraethwyr ysgol wedi herio tanberfformio yn effeithiol ac nid ydynt wedi dwyn penaethiaid i gyfrif. Mae Aelodau Arweiniol o'r tîm gweinyddol a'r wrthblaid yn derbyn bod angen codi lefel yr her drylwyr i ysgolion.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Fe wnaeth rhanddeiliaid, yn cynnwys aelodau etholedig, llywodraethwyr a phenaethiaid, ymgymryd yn dda â pharatoi'r adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol ac mae'n rhy ddisgrifiadol. Mae diffyg dadansoddi strategol ac arfarniad trylwyr o ddata ar ddeilliannau ynddo. Nid yw hunanarfarnu wed ei ymgorffori yng ngwaith arferol y gyfarwyddiaeth eto.

Yn gyffredinol, mae mesurau rheoli perfformiad yn dangos faint mae'r awdurdod yn ei wneud, ond nid ydynt bob amser yn dangos yn glir a fydd unrhyw un arall yn elwa os cyflawnir amcanion. Mae'r awdurdod yn datblygu dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a gefnogir gan raglen hyfforddi. Mae eisoes wedi cael ei fabwysiadu'n effeithiol gan wasanaeth y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effeithiolrwydd y dull hwn.

Nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn dwyn ei holl bartneriaid i gyfrif yn llawn eto. Mae wedi mabwysiadu fframwaith atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau yn ddiweddar, ac mae gwella'r cynllunio gyda disgwyliadau cliriach. Mae hyn yn welliant priodol ond mae hefyd yn rhy gynnar i arfarnu ei effaith.

Mae'r awdurdod wedi dechrau gwneud defnydd effeithiol o Ffynnon, sef system rheoli perfformiad Cymru gyfan, i gasglu, rheoli ac adrodd data. Fodd bynnag, er ei fod yn cael ei ddefnyddio i adrodd am gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun gwella corfforaethol a thargedau cytun ar ddeilliannau, nid yw'r system wedi ei hymgorffori ar draws pob gwasanaeth eto.

Mae'r grŵp datblygu data yn gweithio i wella cydlynu a dadansoddi data perfformiad. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i asesu effaith y gwaith hwn.

Mae aelodau ac uwch reolwyr yn cefnogi cyfranogiad yr awdurdod yn y consortiwm

rhanbarthol fel ffordd o wella cynhwysedd a defnyddio arfer orau i godi safonau mewn ysgolion. Hyd yn hyn, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i ddangos bod cydweithio wedi gwella'r cyfleoedd addysgol i ddysgwyr.

Mae cynnydd yn erbyn yr argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol wedi bod yn gyffredinol araf, ac eithrio, yn nodedig, cynllunio lleoedd ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae ystod o bartneriaethau priodol ar waith i gyflwyno'r gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda'r bwrdd iechyd, y tîm troseddau ieuenctid, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol a Heddlu Gwent. Mae'r amcanion strategol ar gyfer y partneriaethau hyn wedi'u hamlinellu'n glir yn y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Ceir cysylltiadau cryf rhwng y blaenoriaethau yn y cynlluniau hyn a chynlluniau eraill yr awdurdod, fel y cynlluniau iechyd, tlodi ac adfywio.

Ceir lefel gynyddol o ymddiriedaeth ymhlith partneriaid ac mae hyn yn arwain at gynllunio a darparu adnoddau yn well ar gyfer gwasanaethau. Mae'r bartneriaeth yn datblygu prosesau comisiynu gwell ac mae'n cymhwyso egwyddorion gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau presennol. Mae'r rhain wedi arwain at ddadgomisiynu nifer fach o wasanaethau nad ydynt yn perfformio'n ddigon da.

Y bwrdd gwasanaethau lleol yw'r prif gorff monitro ar gyfer y Strategaeth Gymunedol ac mae'n cael adroddiadau gan ei bartneriaethau fel Teuluoedd yn Gyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod bob amser yn ymwybodol o effaith gwaith ei bartneriaethau. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gweithio'n dda i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n bodloni eu hanghenion. Mae'r rhain yn cynnwys addysg a medrau, cyngor ac arweiniad ac anghenion hamdden a chymdeithasol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae arfarnu effaith y gwasanaethau hyn ar grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae darparwr dysgu yn y gwaith yr awdurdod lleol yn bartner effeithiol mewn cyflwyno cyrsiau galwedigaethol a rhaglenni partneriaeth ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg a hyfforddiant. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda Choleg Gwent wedi gwella'n sylweddol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella addysg a hyfforddiant ôl-16 a datblygu Parth Dysgu Glyn Ebwy.

Mae gan yr awdurdod drefniadau da ar waith i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys mewn datblygu gwasanaethau.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae dyrannu adnoddau ariannol i addysg yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir i'r gwasanaeth. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau trawsnewid ysgolion. Cafwyd cyllid ychwanegol o'r gronfa 'buddsoddi i gynilo' ac mae adnoddau wedi cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at feysydd blaenoriaeth fel llythrennedd. Mae'r gyllideb ysgolion wedi cael ei diogelu'n rhannol rhag toriadau cyllideb.

Er mai'r awdurdod sydd â'r cyfanswm uchaf o ran gwariant addysg fesul disgybl yng Nghymru, mae safonau yn anfoddhaol. Y gyllideb ADY ddirprwyedig yw'r trydydd uchaf yng Nghymru. Gan nad yw'r awdurdod yn gwybod p'un a yw pob dysgwr wedi cael ei leoli'n briodol, ni all ddangos bod y gyllideb yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr.

Mae trefniadau trylwyr ar waith ar gyfer monitro cyllideb gwasanaethau. Caiff gorwario sylweddol ei fonitro a'i ariannu'n drylwyr o adnoddau corfforaethol neu gyllidebau adrannol. Mae ad-drefnu ysgolion wedi golygu costau ymddeol uchel, ond fe gaiff y rhain eu rheoli'n briodol. Mae gan leiafrif o ysgolion gronfeydd wrth gefn o 5% neu fwy. Mae gan rai ysgolion gronfeydd wrth gefn o 10% neu fwy. Caiff ysgolion â gormod o gronfeydd wrth gefn a diffygion eu herio ond mae angen i'r awdurdod ganolbwyntio ymhellach ar leihau'r cronfeydd wrth gefn uchel mewn rhai ysgolion.

Caiff ysgolion ystod dda o wasanaethau cymorth, sy'n destun arolygon boddhad blynyddol. Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn darparu eglurder ar lefelau gwasanaeth, cost ac ansawdd.

Bu cynnydd mewn gwella rheoli perfformiad, ond at ei gilydd, mae casglu ac adrodd data yn dameidiog. O ganlyniad, ni all yr awdurdod fod yn siŵr fod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol.

Caiff datblygu'r gweithlu ei gefnogi'n effeithiol gan fframwaith rheoli perfformiad yn seiliedig ar gymwyseddau, er nad yw hyn wedi cael ei ymgorffori'n llawn eto. Cyflwynwyd y polisi rheoli presenoldeb i staff ysgolion ac mae wedi lleihau eu cyfraddau absenoldeb yn llwyddiannus.

Mae'r adran yn defnyddio cyllid allanol, partneriaethau a threfniadau cydweithredol i gyflwyno darpariaeth yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ysgolion yn fodlon â'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael trwy'r consortiwm rhanbarthol ac mae cytundebau lefel gwasanaeth ar waith.

Mae'r awdurdod wedi cynnal arfarniad o'i wasanaethau, ond ni all ddangos yn gyson ei fod wedi defnyddio'i adnoddau yn effeithiol i gyflawni deilliannau da a gwella safonau. Mae gwerth am arian felly yn anfoddhaol.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stephen Lamb AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Collins AEM | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy AEM | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees AEM | Arolygydd Tîm |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| John Maitland Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Shan Annett | Enwebai |
| Angharad Reed | Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Estyn) - Safonwr |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)